

Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Torfaen

2006 - 2021

TORFAEN
COUNTY
BOROUGH



BWRDEISTREF
SIROL
TORFAEN



Mae cyngor Torfaen wedi mabwysiadu ei gynllun datblygu lleol (CDLI).

Bydd y cynllun hwn yn arwain datblygiad tir a'r defnydd o dir yn y fwrdeistref sirol hyd nes 2021. Bydd y CDLI yn helpu creu tyfiant cynaliadwy yn Nhorfaen i sicrhau ei bod yn ardal egniol a llewyrchus, ble mae gan bobl y sgiliau, yr wybodaeth a'r cyfleoedd i gyflawni. Ei nod, hefyd, yw creu gwell ansawdd bywyd ar gyfer pobl, fel eu bod yn byw mewn cymunedau diogel, iach a ffyniannus, gyda chyfleusterau lleol hygrych.

Mae gwarchod a gwella treftadaeth naturiol unigryw Torfaen, a'i hunaniaeth ddiwylliannol a hanesyddol, hefyd yn rôl bwysig i'r cynllun.

Yn y CDLI, ceir prif strategaethau cynllunio a datblygu'r cyngor hyd nes 2021. Mae hyn yn elfen arwyddocaol a bydd yn hybu adfywiad cynaliadwy canol trefi Torfaen. Hefyd, mae'n tynnu sylw at dros £1biliwn o fuddsoddiad posib yn y fwrdeistref cyn 2021, sy'n cynnwys cartrefi, swyddi, cyfleusterau cymunedol a seilwaith trafndiaeth

newydd o fewn Torfaen.

Fel rhan o hyn, mae'n nodi darnau o dir ble caniateir adeiladu, a ble na chaniateir adeiladu, yn ogystal â'r fframwaith cynllunio a ddefnyddir wrth ystyried yr holl geisiadau cynllunio yn Nhorfaen.

Mae'r CDLI a'r dogfennau cysylltiedig ar gael i'w darllen a'u lawrlwytho ar www.torfaen.gov.uk/cy/CynllunioADatblygu/Polisi-Cynllunio/Polisi-Cynllunio.aspx

Sylwer – 'Crynodeb Dwyieithog' o CDLI Mabwysiedig Torfaen yw'r ddogfen hon, ac felly ni ddylid ei defnyddio at ddibenion cynllunio.

Am wybodaeth bellach, neu i brynu copïau papur o ddogfennau'r CDLI, mae croeso i chi gysylltu â'r Tîm Blaen-Gynllunio yn y cyfeiriad post neu e-bost isod; neu ffoniwch 01633 648805 / 648039

Y Tîm Blaen-Gynllunio, Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, Tŷ Blaen Torfaen, Ffordd Panteg, New Inn, Pont-y-pŵl, Torfaen, NP4 0LS.

E-bost: ldp@torfaen.gov.uk

Strategaeth 'Rhwydwaith o Gymunedau Integredig' y CDLI

Er mwyn cyflawni'r Weledigaeth uchod, nod Strategaeth y CDLI yw darparu 'Rhwydwaith o Gymunedau Integredig' sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddau anheddiad allweddol Cwmbrân a Phont-y-pŵl, i sicrhau eu bod yn llwyddiannus ac yn gweithredu fel canolbwyntiau gwasanaethau i'r aneddiadau o'u cwmpas. Mae lefel y datblygiad arfaethedig yn adlewyrchu rôl, graddfa a swyddogaeth aneddiadau unigol; gyda phob anheddiad yn adeiladu ar ei chyfleoedd penodol er budd y Fwrdeistref Sirol yn ei chyfanrwydd.

Bydd gan ganolbwyntiau canolog Blaenafon, Pont-y-pŵl a Chwibrân ran bwysig i'w chwarae wrth ddarparu gwasanaethau lleol ar gyfer yr ardaloedd o'u cwmpas. Fel yr anheddiad mwyaf, mae gan Gwibrân y potensial hefyd i ddarparu rôl ranbarthol ehangach ar gyfer cyfleusterau a gwasanaethau. Bydd cysylltiadau trafndiaeth rhwng y canolbwyntiau yn allweddol wrth wireddu'r strategaeth hon.

Bydd angen i ddatblygiadau tu allan i'r canolbwyntiau canolog, gysylltu at ganolfannau gwasanaeth sydd eisoes yn bodoli, neu bydd arnynt angen mynediad da at y cyfleusterau hyn. Ble nad yw gwasanaethau eisoes yn bodoli, bydd angen i ddatblygiadau sicrhau bod modd darparu gwasanaethau lleol, a bod mynediad atynt, er mwyn sicrhau bod modd integreiddio cymunedau sy'n datblygu, yn llwyddiannus.

Gweledigaeth y CDLI

Wrth ystyried sut ddylai'r CDLI ar gyfer Torfaen daclo materion allweddol ac arwain a rheoli datblygiadau yn y dyfodol, nodwyd y weledigaeth glir ganlynol ar gyfer y ffordd y dylai pethau fod yn y Fwrdeistref Sirol yn 2021: -

Ar ymyl ddwyreiniol cymoedd de Cymru, bydd Torfaen yn rhan o Ranbarth Dinas Rwydweithiol sy'n cynnal cymunedau ffyniannus ac economi amrywiol mewn amgylchedd hanesyddol, diwylliannol a naturiol eithriadol.

Erbyn 2021, trwy gydweithio, bydd y strategaeth datblygu ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Torfaen yn sicrhau tyfiant cynaliadwy, wedi ei gynllunio, sy'n adlewyrchu rôl a swyddogaeth penodol aneddiadau. Bydd yn darparu ardal nodedig, egniol a llewyrchus, ble mae gan bobl y sgiliau, yr wybodaeth a'r cyfleoedd i gael gwell ansawdd bywyd mewn cymunedau diogel, iach a ffyniannus sydd â chyfleusterau lleol hygyrch. Bydd yn hyrwyddo adfywiad cynaliadwy canol ein trefi, gan sicrhau eu bod yn ffocws i fywyd cymdeithasol, masnachol a chymunedol, tra hefyd yn gwarchod a gwella treftadaeth naturiol unigryw Torfaen a'i hunaniaeth ddiwylliannol a hanesyddol.

Polisiau y CDLI

Yn y CDLI, ceir y 9 Polisi Strategol trosfwaol canlynol, a ddatblygwyd i drosglwyddo Gweledigaeth / Strategaeth y CDLI ac sy'n cael eu cefnogi gan bolisiau mwy manwl y Cynllun, fel a grynhoir isod.

Polisiau Strategol

Polisi S1	sy'n diffinio'r Ffiniau Trefol er mwyn hybu'r defnydd llawn ac effeithiol o dir trefol, i alluogi datblygiad i gyfrannu at greu cymunedau cynaliadwy ac i ddiffinio'r ardal drefol ble mae yna ragdybiaeth o blaid datblygiad. Mae tir tu allan i'r Ffiniau Trefol o fewn yr Ardal Wledig ble mae yna gyfyngiad ar ddatblygiad.
Polisi S2	sy'n rhoi cyfres o feini prawf Datblygu Cynaliadwy y dylid eu hystyried yn nyluniad cynnig ar gyfer datblygiad.
Polisi S3	sy'n darparu'r meini prawf y dylid eu hystyried i geisio lliniaru achosion newid hinsawdd pellach, ac addasu at effeithiau presennol newid hinsawdd, a'r effeithiau yn y dyfodol, er enghraifft hybu dylunio cynaliadwy.
Polisi S4	ar 'Greu Lle' sy'n gofyn i ddatblygiad newydd roi ystyriaeth lawn i gyd-destun yr amgylchedd naturiol ac adeiledig lleol, a'i nodweddion arbennig, gan gynnwys y meini prawf ar ddylunio cynaliadwy a hybu defnydd cymysg.
Polisi S5	yn darparu ar gyfer 4,700 anheddiad yn Nhorfaen, trwy nodi safleoedd ar gyfer tua 5,740 o aneddiadau yn ystod y cyfnod rhwng 2006 a 2021; ac mae hyn wedi ei rhannu o fewn yr Ardaloedd Is-farchnad Tai canlynol: - <ul style="list-style-type: none">Gogledd Torfaen – tua. 550 anedd;Pont-y-pŵl – tua. 1,875 anedd; aChwibrân – tua. 2,275 anedd. Bydd yr anheddau hyn yn cynnwys:- <ul style="list-style-type: none">safleoedd sydd eisoes wedi eu hadeiladu, yn cael eu hadeiladu neu wedi eu caniatáu;dyraniadau safle newydd;I wfans hap-safleoedd; acYstadau Bach (9 anedd neu lai).
Polisi S6	sydd â darpariaeth ar gyfer 40.3ha o dir newydd at ddibenion cyflogaeth a busnes a 35.0ha ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth rhanbarthol strategol ar draws y Fwrdeistref Sirol yn ystod y cyfnod 2006-2021.
Polisi S7	yn ceisio sicrhau bod cynigion ar gyfer datblygiad yn hybu'r gallu i Warchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol, Adeiledig a Hanesyddol.
Polisi S8	sy'n amlinellu'r rhwymedigaethau cynllunio fydd eu hangen ar gynigion am ddatblygiad, i roi sylw i effeithiau datblygiad ac i sicrhau bod y cynnig yn fwy derbyniol yn nhermau cynllunio defnydd tir; gyda blaenoriaethau allweddol yn cael eu nodi.

Polisiau Strategol

Polisi S9

yn nodi y bydd datblygiadau adwerthu mawr a datblygiadau hamdden a diwylliannol ym mhrif ardal canol y dref yn digwydd yn y Ffin Canol Tref a nodwyd ar gyfer Canolfan Is-ranbarthol Cwibrân; bydd Canolfannau Siopa Dosbarth Pont-y-pŵl a Blaenafon yn cael eu gwarchod a'u gwella i wella bywiogrwydd a hyfywra ac i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion trigolion lleol ac yn darparu amrywiaeth o gyfleusterau; a bydd Canolfannau Siopa Lleol yn cael eu gwarchod a'u gwella i ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau ar gyfer y gymuned leol.

Polisi ar gyfer y Fwrdeistref Gyfan

Polisi BW1

sy'n darparu Polisi Cyffredinol ar gyfer y Fwrdeistref gyfan ar Gynigion ar gyfer Datblygiadau; gyda meini prawf sy'n cwmpasu 'Amwynder a Dylunio', yr 'Amgylchedd Naturiol', yr 'Amgylchedd Adeiledig', 'Darparu Cyfleustodau' a 'Dylunio a Thrafnidiaeth', a bydd pob cais cynllunio'n cael ei bennu yn unol â pholisiau perthnasol eraill y Cynllun Datblygu Lleol.

Ardaloedd Gweithredu Strategol

Polisi SAA1

AGS Ganolog y Llain Ddwyreiniol, Cwibrân - Cynllun 13ha a arweinir gan gyflogaeth; 2.7ha at ddefnydd B1 (diwydiannol ysgafn a swyddfeydd) a gwesty; 5.6ha at ddefnydd B2 (diwydiannol cyffredinol) a siop fwyd (Morrisons), defnydd hamdden a gofod agored cyhoeddus.

Polisi SAA2

AGS Ymyl y Gamlas, Cwibrân - Cynllun 6.2ha a arweinir gan Tai gyda chyfanswm o tua 150 annedd (100 i'w sicrhau o fewn Cyfnod y Cynllun), defnydd ymyl y Gamlas a gofod agored cyhoeddus.

Polisi SAA3

AGS Llantarnam, Cwibrân - Cynllun 29.13ha a arweinir gan Tai i adeiladu tua 450 annedd, 8ha at ddefnydd cyflogaeth B1, canolfan ar gyfer y gymdogaeth, gofod agored a darpariaeth hamdden, gyda chymorth gwelliannau strategol i'r seilwaith priffyrdd.

Polisi SAA4

AGS Mamheilad, Pont-y-pŵl - Cynllun 72.65ha defnydd cymysg i adeiladu pentref trefol cynaliadwy o 1,700 annedd (690 i'w sicrhau o fewn Cyfnod y Cynllun), defnydd cyflogaeth, aildefnyddio'r Adeilad Rhestredig Gradd II* (yr hen British Nylon Spinners), canolfan ar gyfer y gymdogaeth, ysgol gynradd, gofod agored a chyfleusterau hamdden.

Polisi SAA5

AGS 'The British', Pont-y-pŵl - Cynllun adfer tir 72ha, i baratoi ar gyfer cynllun adfywio defnydd cymysg (preswyl, cyflogaeth, addysg, cymunedol, gofod agored a chyfleusterau hamdden ayb.) tu hwnt i Gyfnod y Cynllun.

Ardaloedd Gweithredu Strategol

Polisi SAA6

AGS De Sebastopol, Cwibrân - Pentref trefol cynaliadwy 103.5ha gyda 1,200 annedd (690 i'w sicrhau o fewn Cyfnod y Cynllun) a defnydd ategol gan gynnwys darpariaeth addysg, cyfleusterau cymunedol, canolfan ar gyfer y gymdogaeth, cae chwarae a gofod agored cyhoeddus.

Polisi SAA7

AGS Llanfrechfa Grange, Cwibrân - Cynllun defnydd cymysg 44ha i adeiladu Ysbyty Canolfan Gofal Arbenigol a Chritigol, 4.8ha o dir cyflogaeth cysylltiedig, tua 300 annedd, cyfleusterau cymunedol a hamdden a gofod agored cyhoeddus.

Ceir manylion pellach yr holl AGSoedd, gan gynnwys yr egwyddorion datblygu a fydd yn arwain datblygiad yr ardaloedd hyn yn y dyfodol, ac yn eu bwydo, yn Atodiad 1 y CDLI a / neu'r Fframweithiau Datblygu cysylltiedig.

Polisiau Tai

Cwibrân Polisi H1

O fewn Ardaloedd Is-farchnad Tai Cwibrân, Polisi H1 sy'n clustnodi'r Safleoedd Tai Strategol ac Ychwanegol canlynol.

Safleoedd Tai Strategol

Polisi H1/1

Neuadd y Sir a Phencadlys yr Heddlu, Llanyrafon ar gyfer 220 annedd

Polisi

Hen Goleg yr Heddlu a'r Tir Cyfagos, Llanfihangel Llantarnam ar gyfer 350 annedd..

Safleoedd Tai Ychwanegol

Polisi H1/3

Hen Feithrinfa Belle Vue, Llanfihangel Llantarnam ar gyfer 16 annedd

Polisi H1/4

Fferm Tŷ'r-ywen, Fairwater ar gyfer 25 annedd.

Pont-y-pŵl Polisi H2

O fewn Ardaloedd Is-farchnad Tai Pont-y-pŵl, Polisi H2 sy'n clustnodi'r Safleoedd Tai Strategol ac Ychwanegol canlynol.

Safleoedd Tai Strategol

Polisi H2/1

Hen Ysgol Trefddyn, Penygarn ar gyfer 115 annedd

Polisi H2/2

Pownd yr Anifeiliaid a'r Tir Cyfagos, Wainfelin ar gyfer 135 annedd

Polisi H2/3

Coleg Pont-y-pŵl, Cwmyrnyscoy ar gyfer 140 annedd

Safleoedd Tai Ychwanegol

Polisi H2/4

Yr Iard Lo, Heol yr Orsaf, Panteg ar gyfer 15 annedd

Polisiau y CDLI

Gogledd Torfaen Polisi H3

O fewn Ardaloedd Is-farchnad Tai Gogledd Torfaen, Polisi H3 sy'n clustnodi'r Safleoedd Tai canlynol

Polisi H3/1 Teras Garn-yr-Erw, Blaenafon ar gyfer 26 annedd

Polisi H3/2 Canolfan Iechyd Blaenafon, Blaenafon ar gyfer 17 annedd

Polisi H3/3 Ysgol San Pedr, Blaenafon ar gyfer 18 annedd

Polisi H3/4 Ysgol Hillside, Blaenafon ar gyfer 64 annedd

Polisi H3/5 Tir oddi ar Ffordd Giles, Blaenafon ar gyfer 25 annedd

Polisi H3/6 Yr Hen Go-op, 39-43 Stryd Fawr, Abersychan ar gyfer 24 annedd

Ceir manylion pellach yr holl safleoedd tai, gan gynnwys yr egwyddorion datblygu a fydd yn arwain datblygiad yr ardaloedd hyn yn y dyfodol, ac yn eu bwydo, yn Atodiad 1 y CDLI a'r Briffiadau / Fframweithiau Datblygu cysylltiedig.

Polisi H4 Mae Polisi H4 yn gosod targed o tua 1,132 o gartrefi fforddiadwy yn Nhorfaen dros Gyfnod y Cynllun; ac, yn amodol ar adolygiad blynyddol, mae'n ceisio trafod darpariaeth hyd at y canrannau canlynol o dai fforddiadwy ar bob safle preswyl o 3 annedd neu fwy neu dros 0.1ha:-

1. Gogledd Torfaen - 10 %;
2. Pont-y-pŵl I - 25 %;
3. Gorllewin a Gogledd Cwmbrân - 20 %; and
4. Dwyrain a De Cwmbrân - 30 %.

Polisi H5 sy'n gosod y safonau ar gyfer y ddarpariaeth Hamdden, Gofod Agored a Rhandiroedd ac fe fydd y rhain yn cael eu ceisio yn unol â datblygiadau preswyl newydd o 3 annedd neu fwy.

Polisi H6 sy'n gosod y meini prawf a ddefnyddir wrth ystyried cynigion ar gyfer trawsnewid, rhannu neu aildefnyddio adeiladau at ddibenion preswyl o fewn y Ffin Trefol..

Polisi H7 yn clustnodi'r ddau safle canlynol yng Nghwmynyscoy, Pont-y-pŵl i letya Sipsiwn a Theithwyr hyd nes 2021: -

- H7/1 - Safle Sipsiwn a Theithwyr Rose Cottage ar gyfer 10 lle parhao
- H7/2 - Hen Gae Pêl-droed Clwb Pêl-droed Race ar gyfer hyd at 32 lle parhaol.

Polisi H8 sy'n rhoi'r meini prawf i ystyried cynigion newydd ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.

Polisi H9 sy'n darparu'r meini prawf ar gyfer ystyried Safleoedd Eithriedig bach ar gyfer Tai Fforddiadwy (9 annedd neu lai) o fewn Ffiniau Trefol neu gerllaw.

Polisiau y CDLI

Polisiau yr Economi, Cyflogaeth a Thwristiaeth

Cwmbrân Polisi EET1

O fewn ardal Cwmbrân, Polisi EET1 sy'n clustnodi'r 16.7ha canlynol (gan gynnwys 8.0ha yn AGS3 Llantarnam) o Safleoedd Cyflogaeth: .

Polisi EET1/1 Ffordd Tŷ Coch, Two Locks (1.4ha at ddefnydd B1, B2 a B8);

Polisi EET1/2 Parc Llantarnam A (0.7ha at ddefnydd B1);

Polisi EET1/3 Parc Llantarnam B (0.4ha at ddefnydd B1);

Polisi EET1/4 Parc Llantarnam C (1.4ha at ddefnydd B1).

Pontypŵl Polisi EET2

O fewn ardal Pont-y-pŵl, Polisi EET2 sy'n clustnodi'r 15.6ha canlynol o Safleoedd Cyflogaeth

Polisi EET2/1 Hen Safle'r Gwaith Nwy, Ffordd Panteg, New Inn (2.1ha at ddefnydd B1, B2 a B8)

Polisi EET2/2 Cae'r Felin Isaf (Gogledd), Pont-y-moel (1.2ha at ddefnydd B1);

Polisi EET2/3 Cae'r Felin Isaf (De), Pont-y-moel (0.5ha at ddefnydd B1);

Polisi EET2/4 Tir i'r De o Travelodge, Pont-y-moel (2.1ha at ddefnydd B1);

Polisi EET2/5 Parc Busnes Mamheilad (3.0ha at ddefnydd B1, B2 a B8)

Polisi EET2/6 Dyffryn Wysg, Mamheilad (6.7ha at ddefnydd B1, B2 a B8).

Gogledd Torfaen Polisi EET3

O fewn ardal Gogledd Torfaen, Polisi EET3 sy'n dyrannu'r 8.0ha canlynol o Safleoedd Cyflogaeth (at ddefnydd B1, B2 a B8)

Polisi EET3/1 Heol Farteg, Garndiffaith (0.8ha);

Polisi EET3/2 Ystad Ddiwydiannol Gilchrist Thomas, Blaenafon (1.2ha)

Polisi EET3/3 Kays & Kears, Blaenafon (6.0ha).

Polisïau yr Economi, Cyflogaeth a Thwristiaeth

Polisi EET4

Mae Polisi EET4 yn clustnodi dau Safle Cyflogaeth Rhanbarthol, yng Nghwbrân

Polisi EET4/1 Craig Y Felin (21.0ha);

Polisi EET4/2 Hen Domen Tŷ Coch (14.0ha).

Polisi EET5

sy'n darparu'r meini prawf ar gyfer ystyried colli Safleoedd a Thir Cyflogaeth at ddefnydd arall

Polisi EET6

sy'n cynnwys y ddarpariaeth ar gyfer gwella Safleoedd Hamdden / Twristiaeth sydd eisoes yn bodoli, a gweithgareddau.

Polisïau Manwerthu a Chanol Trefi

Polisi RLT1

sy'n nodi'r Ffiniau Canol Tref ar gyfer Cwbrân (RLT1/1), Pont-y-pŵl (RLT1/2) a Blaenafon (RLT1/3); ac o fewn hyn rhaid bod cynigion ar gyfer datblygiadau manwerthu yn cydymffurfio â rôl, swyddogaeth, graddfa a chymeriad canol y dref.

Polisi RLT2

yn darparu nifer o feini prawf ar gyfer cynigion am ddatblygiad manwerthu o fewn Canol Tref Cwbrân ac mae'n nodi tir ar ochr ddwyreiniol ardal bresennol Canol y Dref (yn fras, yr ardal i'r dwyrain o North Walk a The Mall), gan gynnwys tir rhwng Heol Glyndŵr a Ffordd Dewi Sant (RLT2/1) fel tir sydd â'r potensial i'w ailddatblygu at ddefnydd manwerthu a defnydd arall canol tref, yn amodol ar ddau faen prawf ychwanegol.

Polisi RLT3

sy'n darparu'r meini prawf ar gyfer ystyried cynigion ar gyfer datblygiadau manwerthu newydd (dros 235m2 gros) sydd wedi eu lleoli ar ymyl canol y dref neu tu allan i ganolfannau tref, dosbarth neu leol; gydag amodau neu gytundeb cyfreithiol yn cyfyngu ar faint y gofod llawr ar gyfer manwerthu a'r amrywiaeth a/neu y math o nwyddau a werthir, er mwyn gwarchod iechyd canolfannau yn yr hierarchaeth manwerthu; gyda meini prawf ychwanegol ar gyfer safleoedd ar ymylon y canol.

Polisi RLT4

sy'n darparu'r meini prawf ar gyfer ystyried cynigion ar gyfer defnydd manwerthu newydd ar raddfa fach, sy'n llai na 235m2 gros, na fyddai'n cael eu caniatáu fel arall.

Polisi RLT5

sy'n diffinio'r Ffryntiadau Sylfaenol o fewn Canol Trefi Cwbrân (RLT5/1) a Phont-y-pŵl (RLT5/2); ac o fewn hyn, er mwyn cynnal y craidd o siopau manwerthu, bydd cynigion i newid defnydd siopau (Dosbarth Defnydd A1) at ddefnydd sydd ddim yn A1 yn cael eu caniatáu yn amodol ar sawl maen prawf yn unig.

Polisïau Manwerthu a Chanol Trefi

Polisi RLT6

yn nodi na chaniateir unrhyw geisiadau am newid defnydd a fydd yn arwain at gollu defnydd A1 o fewn Ffryntiadau Manwerthu 100% A1 Canol Tref Pont-y-pŵl.

Polisi RLT7

yn nodi, o fewn Ffryntiadau Eilaidd Canol Trefi Pont-y-pŵl a Chwbrân, fod cynigion ar gyfer defnydd cymysg siopa, gwasanaethau, hamdden / adloniant a defnydd masnachol (ac eithrio defnydd preswyl) yn cael eu gweld fel rhai addas a chaniateir newid defnydd neu ailddatblygu o fanwerthu, yn amodol ar 2 faen prawf.

Polisi RLT8

yn darparu'r meini prawf ar gyfer ystyried cynigion a fydd yn cryfhau rôl a swyddogaeth Canolfannau Siopa Lleol a Chymdogaeth, ac yn eu cynnal.

Polisi RLT9

yn nodi na chaniateir Sefydliadau Bwyd a Diod a fyddai'n arwain at amodau amgylcheddol a fyddai'n niweidio amwynder i drigolion cyfagos, fel a ddiffinnir mewn dau faen prawf.

Polisïau Trafnidiaeth

Polisi T1

T1 yn diogelu tir ac yn gwneud darpariaeth (o ddatblygiadau a fyddai'n gofyn am weithredu unrhyw un o'r cynlluniau) ar gyfer adeiladu'r Cynlluniau Gwella Trafnidiaeth arfaethedig canlynol: -

1. Gwelliannau i Briffordd a Thrafnidiaeth Gyhoeddus Gogledd Torfaen (yn bennaf, coridorau'r A4043 a'r B4246);
2. Cyfleuster Parcio a Theithio / Rhannu Pont-y-pŵl a New Inn;
3. Gwelliannau i Ganol Tref Cwbrân; a
4. Ffordd Gyswllt Llanfdechfa Grange, Llanfdechfa.

Polisi T2

Mae Polisi T2 yn diogelu'r hen gledrau rheilffordd canlynol rhag ddatblygiad a fyddai'n debygol o ragfarnu eu defnydd at ddibenion trafndiaeth yn y dyfodol: -

- 1a – Rhwydwaith Llwybrau Beicio Cenedlaethol 49/492 hen reilffordd 'Lefel Uchel' (Mwynau) rhwng Waunafon ac Ardal Gweithredu Strategol y 'British' ar gyfer estyniad i Pontypool & Blaenavon Railway Co Ltd; a
- 1b – Y rheilffordd 'Lefel Isel' rhwng Blaenafon a Phont-y-pŵl. Yn yr un modd, diogelir Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog rhag ddatblygiad sy'n debygol o ragfarnu ei gallu i ailagor ar gyfer mordwyaeth neu ei hadfywiad.

Polisïau Trafnidiaeth

Polisi T3	yn diogelu'r gwelliannau canlynol i'r rhwydwaith o lwybrau beicio:--
	<ol style="list-style-type: none"> 1. Rhwydwaith Llwybrau Beicio Cenedlaethol 492 Pont Heol Farteg i Ganol Tref Blaenafon 2. Rhwydwaith Llwybrau Beicio Cenedlaethol 492 i Ganol Tref Abersychan 3. Canol Tref Abersychan i Rhwydwaith Llwybrau Beicio Cenedlaethol 492 yn Merchant's Hill, Pont-y-pŵl 4. Gorsaf Drenau Pont-y-pŵl a New Inn i Ganol Tref Pont-y-pŵl 5. Gorsaf Drenau Pont-y-pŵl a New Inn i Famheilad – cynllun i'w gytuno; a 6. Brynbuga (Sir Fynwy) i Ffordd Coed-y-Gric, Griffithstown.

Polisïau Mwynau

Polisi M1	sy'n diogelu adnoddau mwynau pwysig o fewn Ardaloedd Diogelu Agregau ac Ardaloedd Diogelu Glo yn amodol ar ddau faen prawf.
Polisi M2	yn diffinio Ardaloedd Eithriedig Gweithio Glo ac o fewn hyn ni fydd cloddio am lo yn gyffredinol yn dderbyniol, onid yw'n cydymffurfio â pholisïau cynllunio cenedlaethol.
Polisi M3	yn clustnodi tir yn Nhir Pentwys (ger Pont-y-pŵl) fel Ardal Ddewisol ar gyfer Agregau; ac o fewn hyn gellir caniatáu cynigion ar gyfer echdynnu 7.2 miliwn tonnell o agregau.
Polisi M4	<p>Mae Polisi M4 yn diffinio'r Lleiniau Clustogi Safleoedd Mwynau canlynol, ac o fewn y rhain bydd unrhyw ddatblygiad a fyddai'n rhagfarnu'r gallu i echdynnu'r mwyn neu weithredu'r safle mwynau a ganiatawyd, yn cael ei wrthod: -</p> <ol style="list-style-type: none"> a) Drifft Blaentyleri Rhif 2, pwll glo Blaenafon a Llain Glustogi Safleoedd Mwynau 500m cysylltiedig; ac b) Ardal Ddewisol ar gyfer Agregau Tir Pentwys (ger Pont-y-pŵl) a Llain Glustogi Safle Mwynau 200m cysylltiedig.

Polisi Gwastraff

Polisi W1	Mae Polisi W1 yn nodi y bydd cyfleusterau o-fewn-adeilad ar gyfer trafod, trin neu drosglwyddo gwastraff, yn cael eu cyfeirio'n gyffredinol tuag at dir diwydiannol B2 a safleoedd neu gyfleusterau gwastraff sydd eisoes yn bodoli, neu wedi bodoli; a'i bod yn well lleoli cyfleusterau awyr agored i ffwrdd oddi wrth leoliadau sensitif sydd eisoes yn bodoli.
------------------	--

Polisïau Cyfleusterau Cymunedol

Polisi CF1	Mae Polisi CF1 yn diogelu tir yr hen Ganolfan Hamdden Blaenafon er mwyn darparu Canolfan Adnoddau Gofal Sylfaenol.
Polisi CF2	Mae Polisi CF2 yn diogelu tir yn hen Waith Dur Panteg ar gyfer Ysgol Gynradd.
Polisi CF3	Mae Polisi CF3 yn ceisio gwella ansawdd a hygyrchedd cyfleusterau cymunedol y Fwrdeistref Sirol ac yn nodi na chaniateir cynigion ar gyfer datblygiad os byddent yn arwain at golli cyfleuster cymunedol a/neu hamdden, neu eu niweidio, yn amodol ar sawl maen prawf.
Polisi CF4	Mae Polisi CF4 yn nodi na chaniateir cynigion ar gyfer datblygiad, sy'n arwain at golli Gofodau Agored Trefol Pwysig, onid yw'r cynnig yn mynd law yn llaw gyda swyddogaeth y Gofod Agored, neu'n gysylltiedig â'i weithrediad, a byddai'n ychwanegu at ei werth, neu mae yna angen cymunedol neu adfywio am y cynnig sy'n pwyso'r fantol o blaid y cynnig, neu ble byddai diben y gofod agored yn cael ei gynnal.
Polisi CF5	<p>Mae Polisi CF5 yn nodi, yn amodol ar sawl maen prawf, y caniateir datblygiad ar ardaloedd rhandir, ardaloedd o ofod hamdden ffurfiol ac anffurfiol, ardaloedd chwarae plant a gofod agored amwynder; ac mae'n darparu'r safon lleol canlynol ar gyfer rhandiroedd: -</p> <ul style="list-style-type: none"> • Blaenafon - 1.65ha; • Gogledd Pont-y-pŵl - 11.23ha; • De Pont-y-pŵl - 4.97ha; • Cwmbrân - 12.52ha; a • Phonthir - 0.65ha.
Polisi CF6	Mae Polisi CF6 yn clustnodi tir yn y Caeau Dwyreiniol, Cwmyrnyscoy ar gyfer Cae Chwarae newydd.

Polisïau Cefn Gwlad

Polisi C1	Mae Polisi C1 yn nodi'r Lletemau Glas canlynol er mwyn atal cyfuniad aneddiadau ac i gynnal cymeriad agored yr ardaloedd hyn: -
Polisi C1/1	Cwmbrân a Chasnewydd
Polisi C1/2	Ponthir a Chaerllion
Polisi C1/3	Mamheilad a New Inn, Pont-y-pŵl
	Caniateir datblygiad o fewn Lletemau Glas dynodedig dim ond ble mae'r defnydd yn hwyluso cymeriad agored y Lletem Las, neu'n ei gyfoethogi, yn parchu ei leoliad Gwledig o ran cynllun a dyluniad ac yn ymyrryd cyn lleied â phosib ar y dirwedd.

Polisiau y CDLI

Polisiau Cefn Gwlad

Polisi C2

Mae Polisi C2 yn nodi'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig canlynol, ble bydd disgwyl i gynigion ar gyfer datblygiadau gydymffurfio â safonau dylunio a gwarchod yr amgylchedd uchel sy'n briodol i gymeriad LANDMAP yr ardal: -

Polisi C2/1 Cronlyn Llandegfedd

Polisi C2/2 Iseldir y De Ddwyrain

Polisi C2/3 Iseldir y De

Polisi C2/4 Ucheldir y De Orllewin

Polisi C2/5 Tirwedd Treftadaeth Blaenafon

Polisi C2/6 Eastern Uplands

Polisi C2/7 Afon Lwyd Valley; and

Polisi C2/8 Western Uplands.

Polisi C3

Mae Polisi C3 yn darparu meini prawf er mwyn ystyried cynigion ar gyfer Datblygu Gwledig ac Arallgyfeirio.

Polisi C4

Mae Polisi C4 yn darparu'r meini prawf ar gyfer ystyried cynigion i Drawsnewid / Ailsefydlu Adeiladau yng Nghefn Gwlad, tu allan i'r Ffin Trefol dynodedig.

Polisi C5

Mae Polisi C5 yn darparu'r meini prawf ar gyfer ystyried cynigion i Amnewid Anheddau yng Nghefn Gwlad.

Polisi Bioamrywiaeth / Geoamrywiaeth

Polisi BG1

Mae Polisi BG1 yn nodi na chaniateir cynigion ar gyfer datblygiadau ble byddent yn cael effaith niweidiol sylweddol ar safleoedd gwarchod natur dynodedig lleol, gan gynnwys nodweddion Safle o Bwys ar gyfer Gwarchod Natur (SINC), Gwarchodfeydd Natur Lleol neu Safleoedd Daearegol Pwysig Rhanbarthol (RIGS), yn amodol ar ddau faen prawf.

Polisiau y CDLI

Polisiau Amgylchedd Hanesyddol

Polisi HE1

Mae Polisi HE1 yn nodi na chaniateir cynigion ar gyfer datblygiadau sy'n effeithio ar Adeiladau a Strwythurau o Bwysigrwydd Lleol ble bydd effaith niweidiol arnynt, onid yw'r buddion yn troi'r fantol yn erbyn effeithiau o'r fath.

Polisi HE2

Mae Polisi HE2 yn nodi y caniateir datblygiad o fewn Safle Treftadaeth Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon yn amodol ar sawl maen prawf; gan gynnwys hybu dylunio priodol sy'n gwarchod neu'n gwella cymeriad yr ardal leol, gwarchod golygfeydd pwysig a chynnal 'gwerth cyffredinol' neu gyfanrwydd Safle Treftadaeth Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon. Dylai'r canllawiau yng Nghanllawiau Dylunio Safle Treftadaeth Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon fwydo'r cynigion.

Rhaglen Canllawiau Cynllunio Atodol

Mae Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn ddogfennau a gynhrychir gan y Cyngor sy'n darparu canllawiau manwl pellach ar sut y dylai polisiau a chynigion yn y CDLI gael eu defnyddio neu weithredu wrth lunio ceisiadau am ganiatâd cynllunio. Mae CCA yn 'ystyriaeth o bwys' wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Gallant fod yn seiliedig ar destun neu gallant drafod un safle'n benodol.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu CCA ar :		
Rwymedigaethau Cynllunio	Canllawiau Dylunio Safle Treftadaeth Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon	Canllawiau Dylunio Ardal Gadwraeth Canol Tref Pont-y-pŵl,
AGS6 De Sebastopol	AGS7 Llanfrechfa Grange	Ysgol Gymunedol Trefddyn

Bwriad y Cyngor yw mabwysiadu CCA ar :		
Adeiladau ac Estyniadau Domestig	Dylunio Blaen Siop	Diogelwch a Hysbysebion
Safonau Parcio	Coed a Thirlunio ar Safleoedd Datblygiad	Gofod Agored
Datblygiad yng Nghefn Gwlad	LANDMAP / Ardaloedd Tirwedd Arbennig	Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth
Treftadaeth	Chanllawiau Dylunio Ardal Gadwraeth Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog	

Bwriad y Cyngor hefyd yw mabwysiadu Fframweithiau Datblygu (CCA) ar gyfer pob safle tai strategol a ddynodwyd (sydd â 100 annedd neu fwy, gan gynnwys yr Ardaloedd Gweithredu Strategol) a Briffiadau Datblygu (CCA) ar gyfer pob safle tai a chyflogaeth anstrategol a ddynodwyd (llai na 100 annedd).

Mae'r Cyngor yn defnyddio 'Llawlyfr Strydoedd 2' yr Adran Drafnidiaeth (Medi 2010) wrth ddylunio priffyrdd ac fe fydd Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru'n cynhyrchu 'Canllawiau Dylunio Priffyrdd Preswyl Cymru Gyfan' i fynd law yn llaw gyda hyn, maes o law.

Fe fydd y CCA mabwysiedig canlynol, sydd eisoes yn bodoli, yn cael eu hadolygu (ac, o bosib, yn cael eu hymgorffori i'r CCA a restrwyd uchod) i sicrhau cysondeb gyda'r CDLI Mabwysiedig:-

Amnewid Anheddau yng Nghefn Gwlad
Briff Datblygu Clarence Corner
Cynllun Gwarchod Blaenafon
Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol
Datblygiad ac ymgorffori Datblygiad o fewn y Tirlun
Brif Datblygiad Safle'r Popty
Canllawiau Dylunio Blaen Siop
Strategaeth Gofodau Agored a Thir y Cyngor
Adeiladau Dros Dro
Canllawiau Dylunio Ystad Ddiwydiannol Gilchrist Thomas
Datganiad Polisi Drafft Pentwyn
Cymeriad y Tirlun Hanesyddol (Blaenafon) – Canllawiau Gwent
Datganiad Polisi Henllys
Canllawiau Parcio Cynhadledd Sefydlog De Cymru a'r Atodiad
Canllawiau Dylunio Preswyl a Diwydiannol CBST
Canllawiau Dylunio Ystad Ddiwydiannol y Caeau Polo a Strategaeth Ddylunio Ystad Ddiwydiannol Ffordd Avondale

Atodiadau

- Atodiad 1 Manylion Dyraniadau Tai'r CDLI;
- Atodiad 2 Rhestr o Ganllawiau Cynllunio Atodol;
- Atodiad 3 Rhestrau o Ddynodiadau Statudol o fewn Torfaen;
- Atodiad 4 Rhestr o Ddynodiadau Anstatudol o fewn Torfaen;
- Atodiad 5 Disgrifiadau Lletemau Glas;
- Atodiad 6 Tabl Safleoedd Tai;
- Atodiad 7 Tabl Cyfraniadau / Dyraniadau Cyflogaeth;
- Atodiad 8 Fframwaith Monitro Blynyddol;
- Atodiad 9 Rhaglen Fonitro Arfarniad o Gynaliadwyedd;
- Atodiad 10 Geirfa;
- Atodiad 11 Rhestr o Dalfyriadau;
- Atodiad 12 Sylfaen Tystiolaeth y CDLI

Monitro ac Adolygu'r CDLI yn Flynyddol

Mae gofyn i'r Cyngor gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol ar y CDLI i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref bob blwyddyn, wedi mabwysiadu'r Cynllun; cyhoeddir pob Adroddiad Monitro Blynyddol gan y Cyngor. Diben yr Adroddiad Monitro Blynyddol yw rhoi cyfle i adolygu'r cynnydd wrth weithredu'r polisiau, a galluogi'r Cyngor i nodi

unrhyw addasiadau i'r CDLI a'u gweithredu, ble'n briodol. Cyflwynir yr Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf erbyn 31 Hydref 2015, ar sail yr wybodaeth sydd wrth law ar 1 Ebrill 2014. Ceir adolygiad llawn o'r Cynllun ac fe fydd hyn yn dechrau 4 blynedd ar ôl ei fabwysiadu, ym mis Rhagfyr 2017.

Am wybodaeth bellach, neu i brynu copïau papur o ddogfennau'r CDLI, mae croeso i chi gysylltu â'r Tîm Blaen-Gynllunio yn y cyfeiriad post neu e-bost isod; neu ffoniwch 01633 648805 / 648039

Y Tîm Blaen-Gynllunio, Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, Tŷ Blaen Torfaen, Ffordd Panteg, Y Dafarn Newydd, Pont-y-pŵl, Torfaen, NP4 0LS
E-bost: ldp@torfaen.gov.uk